



Partneriaeth Natur Leol Caerdydd

Cylchlythyr - Mai 2022

Croeso i gylchlythyr Partneriaeth Natur Leol (PNL) Caerdydd.

Sefydlwyd PNL Caerdydd yn 2020 fel rhan o brosiect PNL Cymru, sy'n cwmpasu pob Awdurdod Lleol a Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan PNL Cymru [Partneriaethau Natur Lleol Cymru - Hafan](#)

Mae'r cyllid ar gyfer prosiect PNL Cymru gwreiddiol bellach wedi dod i ben, ond mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i barhau i gefnogi rhwydwaith PNL Cymru tan fis Mawrth 2023 drwy eu cynllun grant cyfalaf 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur'.

Cynllun Gweithredu Adfer Natur Leol Caerdydd

Un o amcanion PNL Caerdydd yw llunio Cynllun Gweithredu Adfer Natur Leol (CGANL) sy'n nodi'r blaenoriaethau lleol ar gyfer gweithredu i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth. Mae CGANL Caerdydd drafft yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a fydd yn cael ei rannu PNL Caerdydd i gael sylwadau arno yn ddiweddarach yn y flwyddyn.



Cronfa Prosiect Cymunedol

Mae Cronfa Prosiect Cymunedol PNL Caerdydd yn cynnig planhigion ac offer gwerth hyd at £500 i grwpiau cymunedol i gefnogi prosiectau a gweithgareddau sydd o fudd i fioamrywiaeth.



Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi cyflenwi blychau ar gyfer adar, ystlumod a draenogod, gwestyau chwilod, planhigion a hadau sy'n dda i bryfed peillio, offer garddio, canllawiau adnabod bywyd gwylt a chyfarpar .



Rydym yn gobeithio cynnig cyllid i grwpiau cymunedol eto yn ddiweddarach eleni. Bydd y manylion yn cael eu dosbarthu drwy restr bostio PNL Caerdydd.

Prosiectau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Mae PNL Caerdydd wedi derbyn arian grant blynyddol gan Gronfa Cyfalaf Llywodraeth Cymru '**Lleoedd Lleol ar gyfer Natur**'. Mae hyn wedi cefnogi prosiect Wal Werdd Caerdydd a phrosiect Pryfed Peillio Caerdydd

Prosiect Wal Werdd Caerdydd

Gan weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, mae waliau gwyrdd wedi'u gosod yng nghanolfan gymunedol Efail y Dwst (Dusty Forge), ysgol gynradd Kitchener, ysgol gynradd Llwynbedw, Ysgol Mynydd Bychan, gorsaf dân Caerdydd Canolog, gorsaf Dân Trelái, a gorsaf dân yr Eglwys Newydd.



Bydd y 'waliau byw' hyn yn gwella bioamrywiaeth ac yn gwella ansawdd yr aer. Dengys dadansoddiad o ganlyniadau monitro ansawdd aer a gynhaliwyd gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn Efail y Dwst ac Ysgol Gynradd Kitchener fod y waliau gwyrdd wedi lleihau'r crynodiad Nitrogen Deuocsid o amgylch yr adeiladau 20-30%, o'i gymharu ag ymyl y ffordd.



Mae croeso i unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer adeiladau cyhoeddus yng Nghaerdydd a allai elwa o wal werdd.

Project Pryfed Peillio Caerdydd

Defnyddiwyd arian i brynu peiriannau, offer, planhigion a hadau, i wella'r ffordd y rheolir glaswelltir a chreu a gwella ardaloedd plannu sy'n dda i bryfed peillio ledled y Ddinas.



Gan weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, cynhaliwyd cyfres o weithdai adnabod bywyd gwyllt am ddim y llynedd a buont yn boblogaidd iawn. Cynhaliodd 25 o wirfoddolwyr arolwg o dros 50 o barciau a manau agored i fonitro effaith llai o amlder torri gwair ar amrywiaeth planhigion. Bydd y data'n cael ei ddefnyddio i gefnogi newidiadau pellach i reoli glaswelltir er mwyn gwella bioamrywiaeth.



Cynigir mwy o gysiau hyfforddi gwirfoddolwyr a chyfleoedd arolygu eleni. Bydd y manylion yn cael eu dosbarthu drwy restr bostio'r PNL.

Wythnos Ymwybyddiaeth Draenogod (1 - 7 Mai 2022) – rhodd am ddim!



Gellir dod o hyd i wybodaeth am ddraenogod a syniadau ar gyfer gwneud eich gardd neu eich mannau gwyrdd lleol yn fwy deniadol i ddraenogod ar y gwefannau canlynol;

www.hedgehogstreet.org

www.britishhedgehogs.org.uk

Gall rhywbeth mor syml â gwneud twll yn eich ffens ardd neu eich gât helpu draenogod i ddod o hyd i fwy o fwyd i'w fwyta a lle diogel i nythu.



I ddathlu wythnos ymwybyddiaeth draenogod rydym yn rhoi platau ffens draenogod am ddim (gweler y llun uchod) i'r 20 person cyntaf i anfon e-bost atom yn bioamrywiaeth@caerdydd.gov.uk a dweud wrthym am y camau y maent wedi'u cymryd i helpu draenogod yn eu cymdogaeth.

Rhagor o wybodaeth am Bartneriaeth Natur Leol Caerdydd (PNL)

Grŵp Ilywio PNL Caerdydd yn cynnwys sefydliadau sydd â diddordeb ledled y Ddinas mewn bioamrywiaeth, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Bob Derbyshire. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter i gyfarwyddo a chefnogi digwyddiadau, prosiectau a gweithgareddau a gynhelir drwy'r PNL.

Yr aelodau presennol yw CGGC, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, RSPB, Buglife Cymru, Plantlife Cymru, Coed Cadw, Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru, Cymdeithas Ddinesig Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Clwb Adar Morgannwg.

Partneriaeth Ehangach – Mae'r bartneriaeth ehangach yn cynnwys grwpiau cymunedol lleol, sefydliadau, busnesau, gwirfoddolwyr ac unigolion sydd â diddordeb. Mae'r rhestr bostio bellach yn cynnwys dros 400 o gysylltiadau. Mae'r bartneriaeth ehangach yn cael y newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau, gweithgareddau a phrosiectau i gefnogi bioamrywiaeth yng Nghaerdydd, gan gynnwys ymgynghoriadau, arolygon a chyfleoedd gwirfoddoli ymarferol.



Eich adborth

Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r cylchlythyr hwn. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw rai o'r erthyglau neu os hoffech ymuno â rhestr bostio PNL Caerdydd, cysylltwch â Samantha Eaves (Cydlynnydd y Bartneriaeth Natur Leol) yn bioamrywiaeth@caerdydd.gov.uk